Royal College of Physicians | Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

# Mwy na gyrfa



**Cyfrifiad 2022 y Deyrnas Unedig o feddygon ymgynghorol: canfyddiadau o Gymru**

### Y gweithlu meddygol yng Nghymru ar gipolwg

- Adrodda **57%** o feddygon ymgynghorol yng Nghymru am swyddi ymgynghorwyr gwag.
- Adrodda **61%** o feddygon ymgynghorol am fylchau mewn rotâu hyfforddeion, yn ddyddiol neu'n wythnosol.
- Dim ond **33%** o feddygon ymgynghorol sy'n teimlo bod eu llwyth gwaith dan reolaeth.
- Teimla **74%** o feddygon ymgynghorol fod bylchau mewn rotâu yn cael effaith negyddol ar y gofal i gleifion.
- Mae **82%** o feddygon ymgynghorol yn gweithio mwy na'r oriau sydd yn eu contract fel mater o drefn.
- Dywed **41%** o feddygon ymgynghorol fod ganddynt lwyth gwaith rhy fawr.
- Byddai **52%** o feddygon ymgynghorol sy'n gweithio'n amser llawn yn hoffi lleihau eu horiau.
- Mae **47%** o feddygon ymgynghorol yn bwriadu ymddeol yn y degawd nesaf.

### Ond y newydd da ydy bod …

- **84%** o feddygon ymgynghorol yng Nghymru yn dweud eu bod yn teimlo bod eu cleifion yn eu gwerthfawrogi.
- Dywedodd **77%** y byddent yn argymell eu sefydliad i ffrindiau a pherthnasau fel cleifion.
- Mae **87%** yn cael boddhad o weithio yn eu maes meddygaeth arbenigol.

## Beth yw cyfrifiad y Deyrnas Unedig o feddygon ymgynghorol?

Bob blwyddyn, mae Uned Gweithlu Meddygol Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) yn cynnal cyfrifiad o feddygon ymgynghorol ar ran yr RCP, Coleg Brenhinol y Meddygon, Caeredin a Choleg Brenhinol y Meddygon a Llawfeddygon, Glasgow. Mae'r data a gasglwn yn rhoi inni gipolwg ar gyflwr y gweithlu meddygon ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Dyma ganfyddiadau Cymru o gyfrifiad 2022.

- **Nid yw swyddi ymgynghorwyr yn cael eu llenwi:** Adrodda 57 % o feddygon ymgynghorol yng Nghymru am swyddi ymgynghorwyr gwag, gyda 2.4 o swyddi gwag ar gyfartaledd ym mhob adran. Adrodda 47 % y ceir meddygon locwm yn eu hadran. Dywed 83 % mai'r rhwystr mwyaf rhag recriwtio yw nad yw'r swyddi yn atyniadol.
- **Mae ymgynghorwyr yn aml yn gweld bylchau yn rotâu hyfforddeion:** Roedd 61 % o feddygon ymgynghorol yn ymwybodol o fylchau ar rotâu hyfforddeion, naill ai'n ddyddiol neu'n wythnosol.
- **Mae bylchau mewn rotâu yn cael effaith ar y gofal i gleifion:** Teimlai 74 % fod bylchau mewn rotâu wedi cael effaith ar y gofal i gleifion, gyda chynnal asesiadau o gleifion mewn adrannau brys yn cael ei ddyfynnu amlaf (22 %), llai o fynediad i ofal i gleifion allanol (22 %) ac arosiadau hirach (21 %).
- **Mae gan y gweithlu cyffredinolwyr le i dyfu:** yr arbenigedd meddygol mwyaf yng Nghymru yw meddygaeth yr henoed, yna cardioleg, meddygaeth resbiradol, gastroenteroleg/hepatoleg, ac endocrinoleg/diabetes. Tra bo 62 % wedi cymhwyso i weithio ym maes meddygaeth fewnol acíwt neu feddygaeth fewnol gyffredinol, 49 % yn unig sydd ag ymrwymiad gwaith i wneud hynny, a 41 % yn unig sy'n cyfranogi mewn meddygaeth acíwt.
- **Mae'r model gofal yn newid:** Mae 33 % nawr yn cyflwyno'r gofal ar uned gofal brys ar yr un diwrnod (SDEC), naill ai'n ddyddiol (14 %), yn wythnosol (41 %) neu'n fisol (42 %). Dim ond 6 % sy'n cyflwyno gofal ar ward rithiol, ond o'r rhai sydd yn gwneud hyn, mae 46 % yn gweithio ar ward rithiol yn ddyddiol, 15 % yn wythnosol a 38 % yn fisol.
- **Mae ymgynghorwyr yn dal i weithio y tu hwnt i gynlluniau eu swyddi:** Mae gan 90 % o feddygon ymgynghorol gynllun swydd cyfredol. Fodd bynnag, dywed 82 % eu bod yn gweithio mwy na'r oriau y cytunwyd arnynt yn eu contract fel mater o drefn – yn aml i wneud gwaith gweinyddol sy'n ymwneud â gofal i gleifion (72 %) neu i ddarparu gofal uniongyrchol i gleifion (49 %).
- **Mae trefniadau gweithio hyblyg yn debygol o dyfu:** Mae 22 % o ymgynghorwyr yn gweithio llai nag yn amser llawn neu'n hyblyg, gyda 52 % yn dweud yr hoffent leihau eu horiau, gan danlinellu pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu ar sail swyddi sy'n gyfwerth ag amser llawn (FTE) yn hytrach na niferoedd.
- **Mae arferion gweithio yn dal i newid ac esblygu:** Mae 87 % o ymgynghorwyr nawr yn cyflawni rhyw gymaint o'u gwaith o bell – DPP yn fwyaf cyffredin, yna waith gweinyddol a chyfarfodydd sy'n ymwneud â gofal i gleifion, addysg ac archwilio / gwella ansawdd. 19 % yn unig sy'n cynnal clinigau cleifion allanol o bell. O'r rhai nad ydynt yn gweithio o bell ar hyn o bryd, dywedodd 54 % yr hoffent weithio o bell i'r dyfodol.

- **Mae ymgynghorwyr yn teimlo bod eu llwyth gwaith yn rhy fawr:** 33% yn unig sy'n teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu llwyth gwaith. Dywedodd 41% o ymgynghorwyr bod ganddynt lwyth gwaith rhy fawr bron bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser, a dywedodd 41% eu bod yn gweithio oriau gormodol. Ni wnaeth 44% gymryd eu hawl llawn i wyliau yn 2022 – yn bennaf am eu bod yn rhy brysur neu'n methu â threfnu ymgynghorydd llanw ar gyfer eu gwasanaeth clinigol. Cymerodd 50% amser annisgwyl i ffwrdd oherwydd salwch, gyda 63% o'r rhain yn cymryd amser i ffwrdd oherwydd COVID-19. Roedd y gwaith wedi cysylltu â dros hanner ohonynt (52%) ynglŷn â materion clinigol pan oeddent ar wyliau.
- **Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ymgynghorwyr yn dal i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi:** Dywed 84% eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan gleifion, teimlai 81% eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cydweithwyr meddygol a 79% gan eu cydweithwyr anfeddygol.
- **Mae rolau arweinyddiaeth yn allweddol i foddhad mewn swydd:** Dywedodd 44% o ymgynghorwyr fod ganddynt rôl arweinyddiaeth ychwanegol (naill ai rôl glinigol neu addysgol) a dywedodd 73% o'r rhain eu bod yn mwynhau eu gwaith fwy oherwydd hynny. Teimlai'r rhan fwyaf eu bod yn cael cefnogaeth eu rheolwyr a'u cydweithwyr arbenigol i gyflawni rôl arweinyddiaeth, er mai dim ond 58% a oedd ag amser gwarchodedig yn eu cynllun swydd ar ei chyfer a dim ond 45% a deimlai fod y rôl yn cael ei chydnabod yn ddigonol yn eu gwerthusiad.
- **Byddai meddygon ymgynghorol yng Nghymru yn dal i argymell eu sefydliad i gydweithwyr, ffrindiau a theulu:** Dywedodd 81% y byddent yn argymell eu sefydliad i ymgynghorwyr eraill, dywedodd 84% y byddent yn argymell eu sefydliad i hyfforddeion a dywedodd 83% y byddent yn ei argymell i feddygon SAS. Dywedodd 77% y byddent yn argymell eu sefydliad i ffrindiau a pherthnasau pe byddent yn gleifion.
- **Er gwaethaf yr heriau, mae'r rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol yn dweud eu bod yn cael boddhad o'u swydd:** Dywedodd 87% eu bod yn teimlo bod eu gwaith arbenigol yn eu boddhau bron bob amser neu'n aml. Dywedodd 34% eu bod yn teimlo bod eu gwaith mewn meddygaeth fewnol gyffredinol yn eu boddhau bron bob amser neu'n aml. Mae'r gwahaniaeth mewn boddhad mewn swyddi rhwng gwaith arbenigol a meddygaeth fewnol gyffredinol yn gyson â blynyddoedd blaenorol.
- **Mae'r tîm aml-broffesiynol yn newid:** Adroddodd 31% o feddygon ymgynghorol eu bod yn gweithio gyda chydymaith meddygol (PA). Fodd bynnag, dim ond 11% sydd ag amser yn eu cynllun swyddi i oruchwylio cymdeithion meddygol. Adrodda 83% am weithio gyda nyrs glinigol arbenigol fel rhan o'r tîm clinigol craidd, yna fferyllwyr (63%), ffisiotherapyddion (39%) a therapyddion galwedigaethol (33%).
- **Mae argyfwng ymddeoliadau ar droed:** Disgwylir i 47% o feddygon ymgynghorol yng Nghymru gyrraedd yr oed pan maent yn bwriadu ymddeol yn y degawd nesaf, ac mae hynny'n debygol o dynnu dros 400 o feddygon o'r gweithlu meddygol.
- **Mae'r gweithlu meddygon ymgynghorol yng Nghymru yn amrywiol:** Mae 54% yn ystyried eu hunain yn Saeson, Cymry, Albanwyr, Gwyddelod Gogledd Iwerddon neu Brydeinwyr Gwyn, mae 28% yn ystyried eu hunain yn Asiaid/Asiaid Prydeinig, 7% yn Wyn arall, 3% o ethnigrwydd cymysg, 2% yn Ddu/Du Prydeinig, 2% yn Wyddelod Gwyn ac mae 5% yn adnabod eu hunain fel arall. Mae 94% o feddygon ymgynghorol yng Nghymru yn ddinasyddion yn y Deyrnas Unedig. Mae 64% yn ddynion a 36% yn fenywod. Fe wnaeth 38% raddio o ysgol feddygol yn Lloegr, 33% dramor a 26% yng Nghymru.

# Addysgu, gwella, dylanwadu

Drwy ein gwaith â chleifion a meddygon, mae'r RCP yn gweithio i sicrhau newid gwirioneddol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni'n cynrychioli 40,000 o feddygon a chlinigwyr yn fyd-eang – gan addysgu, gwella a dylanwadu er mwyn gwell iechyd a gofal. Mae dros 1,600 o aelodau yng Nghymru yn gweithio mewn ysbytai ac yn y gymuned ar draws 30 o wahanol arbenigeddau clinigol, gan wneud diagnosis a thrin miliynau o gleifion sydd ag amrywiaeth mawr o gyflyrau meddygol. Rydym yn ymgyrchu dros welliannau mewn gofal iechyd, addysg feddygol ac iechyd cyhoeddus.

**Coleg Brenhinol y Meddygon**
**The Maltings, Stryd East Tyndall**
**Caerdydd CF24 5EZ**

**Wales@rcp.ac.uk | @RCPWales | rcp.ac.uk/Wales**